Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

FTC3

# Hysbysiad cyfeirio

## Gwasanaethau Ariannol

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cyfeiriad neu apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn herio penderfyniad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, y Rheoleiddiwr Pensiynau, Banc Lloegr neu Brisiwr Annibynnol o dan Ddeddf Bancio (Darpariaethau Arbennig) 2008 (BSPA) neu Ddeddf Bancio 2009 (BA).

**Dylid anfon y ffurflen hon i swyddfa'r Uwch Dribiwnlys fel ei bod yn cael ei derbyn o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad. Os ydych chi'n hwyr yn gwneud hyn, rhaid i chi esbonio pam yn Adran 4 o'r ffurflen hon**

## 1. Math o benderfyniad sy'n cael ei gyfeirio (rydym yn defnyddio 'cyfeirio' a 'cyfeirnod' i gynnwys 'apêl')

Llenwch y ffurflen mewn PRIFLYTHRENNAU neu mewn teipysgrifen.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth.

Rhowch eich enw llawn ar frig unrhyw ddalen ychwanegol.

**1.1** Nodwch, trwy dicio'r blwch priodol, a yw eich cyfeiriad yn ymwneud â phenderfyniad gan:

- ☐ Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- ☐ Y Rheoleiddiwr Pensiynau
- ☐ Banc Lloegr
- ☐ Prisiwr Annibynnol
- ☐ Yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus
- ☐ Arall, rhowch fanylion


©Hawlfraint y Goron 2025

## 2. Gwybodaeth am y ceisydd

**2.1** Ai chi yw'r unigolyn y cyfeiriwyd y penderfyniad ato neu'r unigolyn yr effeithir arno gan y penderfyniad?

(Ticiwch un blwch yn unig)

☐ Unigolyn y cyfeiriwyd y penderfyniad ato

☐ Unigolyn yr effeithir arno gan y penderfyniad

**Nodyn 2.1:** Fel arfer, y ceisydd yw'r unigolyn y cyfeirir y penderfyniad ato. Fodd bynnag, efallai y bydd y tribiwnlys yn caniatau i eraill a effeithir gan y penderfyniad i gyfeirio'r mater i'r tribiwnlys mewn rhai achosion.

**2.2** Cyfenw, neu enw cwmni neu sefydliad

**2.3** Enwau eraill

**2.4** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**Nodiadau ar gyfer 2.4:**
Hysbyswch y tribiwnlys ar unwaith os bydd y cyfeiriad yn newid.

**2.5** Rhif ffôn

**2.6** Cyfeiriad e-bost

**2.7** A oes gennych chi gyfreithwyr neu gynrychiolydd arall?

☐ Oes. **Ewch i gwestiwn 2.8.**

☐ Nac oes. **Ewch i adran 3.**

**Nodiadau ar gyfer 2.7:**
Cynrychiolydd yw rhywun sy'n helpu'r ceisydd, gan ymdrin â'r ohebiaeth a chynrychioli'r ceisydd mewn unrhyw wrandawiad. Wedi hynny, bydd yr Uwch Dribiwnlys yn gohebu â'ch cynrychiolydd yn unig.

**2.8** Enw'r cynrychiolydd

**2.9** Statws (cyfreithiwr, bargyfreithiwr ac ati)

**2.10** Sefydliad (os oes un)

**2.11** Cyfeiriad

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**2.12** Rhif ffôn

**2.13** Cyfeiriad e-bost

**2.14** Cyfeirnod (os oes un)

## 3. Ynglŷn â phenderfyniad yr atebydd

O ran 'atebydd' rydym yn golygu'r corff neu'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad rydych chi'n ei gyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys. Rhowch fanylion y penderfyniad isod

**3.1** Beth oedd dyddiad y penderfyniad?

Diwrnod Mis Blwyddyn

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**3.2** Beth oedd cyfeirnod yr atebydd?

**Nodyn 3.2:** Fe welwch hwn ar bob gohebiaeth gan yr atebydd.

**3.3** Enw cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer y penderfynwr.

Enw

E-bost

## 4. Ceisiadau hwyr

**4.1** Ydych chi'n gwneud eich cais i'r Uwch Dribiwnlys yn hwyr?

- [ ] Ydw. **Rhowch fanylion pellach isod.**
- [ ] Nac ydw

**Nodyn 4.1:** Mae cais hwyr yn gais hwyrach na 28 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad.

Gan roi eich rhesymau dros yr oedi, ac unrhyw reswm arall pam eich bod chi'n meddwl y dylech chi gael estyniad

## 5. Rhesymau dros gyfeirio'r penderfyniad at yr Uwch Dribiwnlys

**5.1** Nodwch pam eich bod yn cyfeirio'r penderfyniad at yr Uwch Dribiwnlys. Dylech hefyd nodi pa benderfyniad yr ydych chi'n credu y dylid bod wedi'i wneud.

Os ydych yn dymuno dweud mwy, defnyddiwch ddalen arall o bapur

## 6. Ceisiadau ychwanegol

**Llenwch y blychau hyn dim ond os yw'n angenrheidiol yn eich achos chi.** Os oes angen, defnyddiwch ddalennau ychwanegol o bapur.

**A.** ☐ Rwy'n gwneud cais am gyfarwyddyd, er nad wyf yn unigolyn y mae'r penderfyniad wedi'i gyfeirio ato, y gellir caniatáu i mi gyfeirio'r mater at yr Uwch Dribiwnlys gan fy mod yn cael fy effeithio gan yr hysbysiad oherwydd:

| |
|---|
| |

**Nodyn A:** Fel arfer, y ceisydd yw'r unigolyn y mae'r penderfyniad wedi'i gyfeirio ato. Fodd bynnag, gall y tribiwnlys ganiatáu i eraill sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad gyfeirio'r mater at y tribiwnlys mewn rhai achosion.

**B.** ☐ Rwy'n gwneud cais am gyfarwyddyd sy'n atal effaith y penderfyniad ar y sail ganlynol:

| |
|---|
| |

**Nodyn B:** Dim ond os yw'n credu na fydd yn niweidio buddiannau unrhyw un y bwriedir i hysbysiad yr Awdurdod ei amddiffyn neu amharu ar weithrediad llyfn unrhyw farchnad y mae'r hysbysiad yn anelu at ei hamddiffyn y gall y tribiwnlys roi'r cyfarwyddyd hwn.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o benderfyniadau eraill y gellir eu cyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys, mae'r un hon yn dod i rym tra bo'r atgyfeiriad yn mynd rhagddo.

**C.** ☐ Rwy'n gwneud cais am gyfarwyddyd nad yw Cofrestr Cyfeiriadau'r Uwch Dribiwnlys yn cynnwys unrhyw fanylion am y Cyfeiriad ar y sail ganlynol:

| |
|---|
| |

**Nodyn C:** Gall y ceisydd ofyn am gyfarwyddyd i gadw'r cyfeiriad oddi ar y gofrestr.

Dim ond os yw'n credu ei fod yn angenrheidiol y bydd y tribiwnlys yn rhoi'r cyfarwyddyd hwn, yn enwedig er mwyn osgoi annhegwch i'r ceisydd neu niwed i ddefnyddwyr.

**D.** ☐ Rwy'n cyfeirio penderfyniad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n gosod cosb am gamddefnyddio'r farchnad ac rwy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol ynghylch y Cyfeiriad hwn.·

**E.** ☐ Ceisiadau eraill. Nodwch beth ydynt a rhowch resymau byr·

| |
|---|
| |

**Nodyn D:** Ni all y tribiwnlys roi cymorth cyfreithiol ar gyfer cyfeiriadau, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â chosbau am gamddefnyddio'r farchnad. Os yw eich cyfeiriad yn ymwneud â chamddefnyddio'r farchnad, ticiwch y blwch i ofyn am gymorth cyfreithiol, a byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth atoch.

## 7. Datganiad o wirionedd ac awdurdodiad cynrychiolydd

☐ Credaf fod y ffeithiau a nodir yn yr hysbysiad hwn yn wir.

☐ Creda'r ceisydd fod y ffeithiau a nodir yn yr hysbysiad hwn yn wir.

☐ Rwyf yn awdurdodi fy nghynrychiolydd, a enwir yn Rhan 2.8 i weithredu ar fy rhan ym mhob achos gerbron yr Uwch Dribiwnlys.

Llofnod y ceisydd neu'r cynrychiolydd

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Nodyn 7:** Dim ond cynrychiolydd cyfreithiol all apelio i'r tribiwnlys fel cynrychiolydd yr apelydd heb awdurdodiad.

Disgrifir cynrychiolydd cyfreithiol fel unigolyn sydd wedi'i awdurdodi dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 i gynnal ymgyfreitha neu arfer hawl i ymddangos.

## Cyn dychwelyd eich ffurflen wedi'i llenwi

**Rhaid** i chi amgáu copi o'r penderfyniad a gyhoeddwyd gan yr atebydd gyda'r ffurflen hon. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd y cais yn cael ei wrthod neu bydd y broses yn arafach.

**Rhaid** i chi hefyd anfon copi o'r hysbysiad cyfeirio hwn at yr atebydd.

## Sut i ddychwelyd eich ffurflen wedi'i llenwi

Gallwch gyflwyno dogfennau ac olrhain eich achos yn ddigidol ar-lein gyda'r gwasanaeth E-Ffeilio.

**Os ydych wedi penodi cynrychiolydd proffesiynol,** rhaid cyflwyno pob ffurflen a dogfen i'r tribiwnlys gan ddefnyddio'r gwasanaeth E-Ffeilio. www.gov.uk/guidance/hmcts-e-filing-service-for-citizens-and-professionals

**Os nad ydych yn gynrychiolydd proffesiynol** gallwch anfon eich dogfennau i:

Upper Tribunal (Tax and Chancery Chamber)
Fifth Floor
Rolls Building
Fetter Lane
London
EC4A 1NL

DX: 160042 Strand 4

E-bost: uttc@justice.gov.uk

Ffôn: 020 7612 9730

Bydd y swyddfa'n rhoi gwybod i chi pan fydd wedi cael eich ffurflen. Os nad ydych wedi clywed gan yr Uwch Dribiwnlys o fewn wythnos, cysylltwch â nhw ar y rhif uchod.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.

I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i'r dudalen we ganlynol https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy

Os ydych eisiau copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 303 5170 Ffôn Testun 18001 0300 123 1024.

Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn testun 18001 0300 790 6234.